# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-13-08 Papur 2 : 02 Hydref 2008

## Deisebau Newydd

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth gefndirol gryno am bob un o'r deisebau sydd i gael ystyriaeth gychwynnol gan y Pwyllgor ar 02 Hydref 2008.

### (i) P-03-146 Deddf Carafanau

### Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i atgoffa pob awdurdod lleol o'r rheoliadau dan Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon fel e-Ddeiseb gan Mr Gordon Pritchard.

Cafwyd 13 o lofnodion ar y ddeiseb.

Darparodd y deisebwr y datganiad hwn i gefnogi'i ddeiseb:

'Yn gyntaf, Rhan 1 (1) ei bod yn drosedd i ddefnyddio tir fel safle carafanau heb gael trwydded safle carafanau,

Yn ail,  Rhan 3 (3) Mae'n rhaid i safle carafanau fod wedi cael caniatâd cynllunio dan Ran Tri o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 cyn y gellir rhoi trwydded safle ac NID trwy dystysgrif datblygiad cyfreithlon.

Yn drydydd, os bydd preswyliwr yn mynd yn groes i Ran 1 (1)  sydd, yn ei dro yn euog o drosedd, yna ar gollfarn ddiannod, gall gael ei ddirwyo hyd at Lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500:00p) yn hytrach na chael ei wobrwyo â datblygiadau hael fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Daeth i'm sylw bod cynghorydd/Ynad Heddwch wedi arwyddo datganiad ei fod wedi bod yn defnyddio'i dir fel safle carafanau, heb drwydded safle carafanau na chaniatâd cynllunio am y deng mlynedd diwethaf, fe ddylai fod wedi cael ei erlyn am y drosedd ddifrifol hon, ond, fel troseddwr cafodd ei wobrwyo'n hael â datblygiad safle carafanau (Tystysgrif datblygiad cyfreithlon).

Diben Deddf 1960 yw rhoi taw ar hyn. Mae'r troseddwr wedi datgan ei fod yn euog o drosedd dan Rhan 1(1) o Ddeddf 1960.'

Linc i'r ddeiseb: h

ttps://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/p-03-146

### (ii) P-03-154 Dadl Panel gyda Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru

### Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym ni sy'n llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefnu dadl panel gyda'r Tywysog Siarl ac aelod o'r grŵp ymgyrchu Republic yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, i drafod dyfodol y Frenhiniaeth'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon fel e-Ddeiseb gan Republic: Yr Ymgyrch am Bennaeth Gwladwriaeth Etholedig.

Cafwyd 47 o lofnodion ar y ddeiseb.

Darparodd y prif ddeisebwr y datganiad hwn i gefnogi'r ddeiseb:

'Yr ydym yn credu bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cynrychioli ysbryd democrataidd newydd yng Nghymru, a bod y Frenhiniaeth yn sefydliad hynafol sydd ar ôl yr oes, ac nad oes lle iddi mewn Cymru fodern a ffyniannus.  Os yw'r Tywysog Siarl am wasanaethu fel Tywysog Cymru, dylai gydnabod ein hysbryd democrataidd newydd a chymryd rhan mewn dadl gyhoeddus fel ffordd o wneud ei hun yn atebol i bobl Cymru.  Yr ydym yn cefnogi'r cysyniad o Bennaeth Gwladwriaeth etholedig, ac yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i drafod hyn gyda Llywodraeth San Steffan.'

Linc i'r ddeiseb:

h

ttps://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/p-03-154

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Medi 2008**